

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Gofal Deintyddol Bupa y Fflint /
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi
Cadwaladr

Dyddiad arolygu: 15 Chwefror
2022

Dyddiad cyhoeddi: 16 Mai 2022

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	13
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	22
4.	Beth nesaf?	24
5.	Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol.....	26
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	27
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	28
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	Error! Bookmark not defined.

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Mae cleifion wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arferion da

Dylanwadu ar bolisiâu a safonau:

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiâu, safonau ac arferion

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ofal Deintyddol Bupa yn Uned 3, Parc Busnes Acorn, Y Fflint CH6 5YN, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 15 Chwefror 2022.

Roedd ein tîm arolygu yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Archwiliodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Safonau Iechyd a Gofal (2015), a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o bractisau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Gwelsom fod Gofal Deintyddol Bupa Y Fflint yn darparu profiad cadarnhaol i gleifion. Roedd yr adborth a gawsom yn cadarnhau bod cleifion yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn.

Gwelsom hefyd ryngweithio proffesiynol a chyfeillgar rhwng yr holl staff a chleifion trwy gydol y broses arolygu.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo'r broses o ddarparu gofal diogel ac effeithiol yn llawn.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth a gwelsom dystiolaeth fod cleifion yn fodlon iawn ar y driniaeth a'r gwasanaeth a dderbyniwyd
- Roedd y tîm staff yn gymwys wrth gyflawni eu cyfrifoldebau ac roedd ganddynt ymrwymiad cryf i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel
- Cofnodion clinigol o safon dda iawn.

Rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Agweddau ar offer llawdriniaeth a dyfeisiau meddygol
- Agweddau ar reoli heintiau
- Archwiliadau clinigol ac adolygiadau gan gymheiriaid

Ni nodwyd unrhyw feysydd o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn a oedd yn gofyn am gamau unioni ar unwaith.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae Gofal Deintyddol Bupa yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Sir y Fflint. Mae'r practis yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal wedi'i gwasanaethu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae gan y practis dîm o staff sy'n cynnwys pedwar deintydd, dau therapydd, saith nyrs ddeintyddol, dau dderbynnnydd a rheolwr practis.

Mae'r practis yn darparu amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol y GIG a phreifat.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom ryngweithio proffesiynol a chyfeillgar rhwng yr holl staff a chleifion trwy gydol y broses arolygu.

Roedd yr adborth a gawsom yn cadarnhau bod y cleifion yn hapus iawn gyda'r gwasanaeth yr oeddent yn ei dderbyn.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn casglu eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir.

Cawsom gyfanswm o 26 o holiaduron wedi'u cwblhau.

Roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol iawn ar y cyfan, gyda mwyafrif y cleifion a gwblhaodd holiadur yn graddio'r gofal a'r driniaeth a dderbyniwyd yn dda iawn.

Roedd rhai o'r sylwadau'n cynnwys:

"Dwi bob amser yn cael fy ngwneud i deimlo'n gyfforddus gan fod gweld y deintydd yn peri pryder i mi"

"Wedi creu argraff"

"Gwasanaeth gwyb bob amser"

"Bob amser yn gymwynasgar"

Gofynnwyd i gleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth mae'n ei ddarparu; roedd sylwadau a ddarparwyd gan gleifion yn cynnwys:

"Mwy o staff i dderbyn galwadau ffôn."

"Gwneud archebion ar-lein."

Cadw'n iach

Hyrwyddo, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom fod posterï a thaflenni gwybodaeth amrywiol wedi'u harddangos a oedd yn rhoi ystod o wybodaeth i gleifion am y practis deintyddol. Roedd deunyddiau darllen wedi'u symud yn briodol o'r ardal aros oherwydd y pandemig.

Gwnaethom nodi bod gwybodaeth am brisiau ar gael wrth ddesg y dderbynfa a oedd yn golygu bod gwybodaeth ar gael i gleifion ynghylch faint y gallai eu triniaeth ei gostio.

Roedd arwydd 'Dim Ysmygu' wedi'i arddangos wrth y brif fynedfa i adlewyrchu deddfwriaeth mangreoedd di-fwg.

Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur heblaw un wedi dweud wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynglŷn â sut i gadw'r geg a'r dannedd yn iach.

Gofal ag urddas

Roedd gan y practis drefniadau ar waith i ddiogelu preifatrwydd cleifion, gan gynnwys manau neilltuedig i gleifion gael sgysiau preifat â staff.

Gwelsom nad oedd y Naw Egwyddor a nodir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol¹ wedi eu harddangos gan eu bod wedi'u tynnu o ganlyniad i'r pandemig. Daethom â hyn at sylw rheolwr y practis, a drefnodd ar unwaith i'r poster gael ei arddangos. Mae'r Naw Egwyddor yn berthnasol i bob aelod o'r tîm deintyddol ac yn nodi'r hyn y gall cleifion ei ddisgwyl gan weithiwr deintyddol proffesiynol.

Gwybodaeth i gleifion

Lle bo'n berthnasol, dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo eu bod wedi cymryd cymaint o ran ag yr oeddent yn ei ddymuno mewn unrhyw benderfyniadau a wnaed ynglŷn â'u triniaeth. Dywedodd pob claf

¹ <https://standards.gdc-uk.org>

hefyd eu bod wedi cael gwybodaeth glir am yr opsiynau triniaeth sydd ar gael a bod cost unrhyw driniaeth bob amser yn cael ei egluro iddynt ymlaen llaw.

Gwelsom fod cynlluniau triniaeth ac opsiynau wedi'u cofnodi yn y sampl o gofnodion cleifion a welwyd. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis ar gael ar ei wefan ac roedd wedi'i harddangos o amgylch y dderbynfa a'r ardal aros.

Mae gan y practis daflen wybodaeth i gleifion sy'n cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd mwyafrif y cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod bob amser yn gallu siarad â staff yn eu dewis iaith, sef Saesneg.

Dywedwyd wrthym fod gan y practis ddwy nyrs ddeintyddol amser llawn sy'n siarad Cymraeg yn rhugl, sy'n helpu i ddiwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg. Gwelsom fod y gwasanaeth hwn yn amlwg yn cael ei hyrwyddo gan ddesg y dderbynfa. Dywedwyd wrthym hefyd fod dau aelod o staff y practis yn gallu cyfathrebu â chleifion mewn Pwyleg a Rwmaneg a bod gan y practis ddefnydd o wasanaethau cyfieithu a chyfieithydd ar y pryd.

Gofal amserol

Mae'r practis yn ymdrechu i sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn modd amserol bob amser, a gwelsom hyn yn ystod ein harolygiad. Disgrifiodd y staff y broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi i amseroedd eu hapwyntiadau.

Cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd holiadur ei bod yn hawdd cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt.

Dywedodd mwyafrif y cleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Roedd rhif brys ar gael pe bai angen triniaeth ddeintyddol frys y tu allan i oriau arferol ar gleifion. Roedd y rhif ffôn yn cael ei arddangos wrth y brif fynedfa, wedi'i ddarparu ar wefan y practis, neges y peiriant ateb, a'r daflen wybodaeth i gleifion.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwelsom sampl o gofnodion cleifion a chanfod eu bod yn fanwl iawn ac o safon uchel. Gwelsom dystiolaeth o opsiynau triniaeth yn cael eu cofnodi a bod pob claf yn cydsynio i driniaeth bob amser. Gwelsom fod hanes meddygol cychwynnol a hanes meddygol cyfredol cleifion wedi cael eu cofnodi'n gyson ac yn briodol. Mae hyn yn unol â chanllawiau proffesiynol ac yn helpu deintyddion i amlygu clefydau posibl neu i nodi meddyginiaeth a allai effeithio ar driniaeth ddeintyddol claf.

Roedd y triniaethau a'r gwasanaethau a gynigir gan y practis yn unol â'r datganiad o ddiben².

Cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd holiadur fod y tîm clinigol yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

Hawliau pobl

Roedd gan y practis bolisi cyfle cyfartal ar waith sy'n dangos ymrwymiad i sicrhau bod pawb yn cael mynediad at driniaeth deg.

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd yr holiadur eu bod yn teimlo eu bod yn gallu cyrchu'r gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir (heb ystyried oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, a rhyw a chyfeiriadedd rhywiol). Fodd bynnag, dywedodd un claf ei fod wedi wynebu gwahaniaethu ar sail anabledd a gwnaed y sylw a ganlyn:

“Byddwch yn barchus ar y ffôn ac wrth y ddesg pan fo rhywun yn anabl ac yn methu â chymryd yr holl wybodaeth ar yr un pryd. Wedi gwneud cwyn unwaith”

Gwelsom fod mynediad addas i bobl anabl at yr adeilad. Mae'r cyfleusterau clinigol a'r ardaloedd staff i gyd wedi'u lleoli ar y llawr daear. Gallai defnyddwyr cadeiriau olwyn, neu gleifion â phroblemau symudedd, gael mynediad at bob un

² Mae rheoliad 5 ac Atodlen 1 i Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 yn nodi'r wybodaeth sy'n ofynnol mewn datganiad o ddiben.

o'r pum meddygfa, y dderbynfa, ardal aros a chyfleusterau toiled. Mae digon o le i barcio ceir ar gyfer staff a chleifion.

Gwranddo a dysgu o adborth

Gwelsom fod polisi cwynion ar waith. Roedd y gweithdrefnau ar gyfer gwneud cwyn, neu sut i leisio pryder, wedi'u harddangos yn glir yn yr ardal aros. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd y polisi cwynion yn cynnwys manylion gwasanaethau eirioli. Gwnaethom drafod hyn â rheolwr y practis a ddiweddarodd y weithdrefn yn dilyn ein hymweliad.

Gwelsom fod systemau ar waith i gofnodi, monitro ac ymateb i gwynion.

Gwnaethom drafod y mecanwaith ar gyfer mynd ati i geisio adborth gan gleifion; a wneir trwy anfon e-bost at gleifion ar ôl pob apwyntiad yn eu hannog i roi adborth. Mae cleifion hefyd yn gallu rhoi adborth trwy wefan y practis. Mae dadansoddiad o adborth yn cael ei drafod gyda'r tîm deintyddol a'i gyhoeddi ar wefan y practis. Mae hyn yn dangos bod adborth yn cael ei gasglu ac y gweithredir arno i wella dysgu a gwella gwasanaethau.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roedd staff y practis yn ymrwymedig i roi gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Roedd y practis i'w weld yn lân ac roedd nifer o newidiadau wedi'u gwneud mewn ymateb i'r pandemig, yn unol â chanllawiau a gweithdrefnau proffesiynol.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo'r broses o ddarparu gofal diogel ac effeithiol yn llawn.

Gofal diogel

Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch

Yn ystod taith o amgylch yr adeilad gwelsom fod pob man yn lân, yn daclus ac yn rhydd o beryglon amlwg.

Ni fynegwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol. Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn teimlo bod y practis deintyddol, yn eu barn nhw, yn lân iawn.

Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael eu sgrinio am symptomau COVID-19, cyn eu hapwyntiad, dros y ffôn ac eto yn syth ar ôl cyrraedd y practis. Gwelsom fod cadeiriau yn yr ystafell aros wedi'u gosod er mwyn gallu cadw pellter cymdeithasol effeithiol.

Gwelsom fod gan y practis orsaf gel llaw wrth y fynedfa ac roedd gel llaw hefyd ar gael mewn gwahanol leoliadau o amgylch y practis. Roedd gan staff y dderbynfa hefyd ddigonedd o fygydau wyneb pe na fyddai gan gleifion rai eu hunain.

Roedd toiledau i'w defnyddio gan gleifion. Roedd arwyddion clir ar gyfer y cyfleusterau ac roeddynt yn amlwg yn lân iawn.

Roedd toiled ar wahân ar gyfer y staff. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd daliwr rholyn toiled na theclyn dosbarthu ar gyfer y tyweli papur yn y ciwbicl toiled.

Roedd rholiau toiled a thyweli papur wedi'u storio'n rhydd ar ben seston y toiled. Dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau bod daliwr rholyn toiled a theclyn dosbarthu yn cael eu gosod yng nghiwbiol toiled y staff.

Roedd cegin ar gael i'r staff ei defnyddio, ynghyd â chyfleusterau ystafell newid a loceri. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod teils ar goll wrth sinc y gegin a pheth difrod ar y wal. Dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau bod unrhyw ddifrod i'r wal a theils coll yn cael eu hatgyweirio/eu hamnewid er mwyn hwyluso glanhau effeithiol.

Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn gwahanol leoliadau o amgylch y practis a gwelsom fod y rhain wedi cael eu gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf. Gwelsom fod yr holl staff sy'n gweithio yn y practis wedi cael hyfforddiant tân.

Roedd arwyddion allanfeydd brys yn amlwg ac roedd poster lechyd a Diogelwch wedi'i arddangos yn y practis.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:

- Bod daliwr rholyn toiled a theclyn dosbarthu tyweli papur yn cael eu gosod yng nghiwbiol toiled y staff.
- Bod difrod i wal y gegin a theils coll yn cael eu hatgyweirio/eu hamnewid er mwyn helpu i lanhau'n effeithiol.

Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offer deintyddol fel yr argymhellir gan Femorandwm Technegol lechyd Cymru 01-05³. Roedd y cyfleusterau'n lân iawn, wedi'u trefnu'n dda ac yn rhydd o annibendod.

³ Mae Memorandwm Technegol lechyd Cymru 01-05 yn cynnwys gwybodaeth am archwiliad o gydymffurfedd diheintio. Datblygwyd yr archwiliad gan ddeintyddion yng Nghymru a chaiff ei gefnogi gan yr Adran Ddeintyddol, Addysg a Gwellu lechyd Cymru (AaGIC).

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer dadheintio offer deintyddol a chanfuwyd bod y broses yn foddhaol. Dangosodd y staff y broses ddadheintio a gwelsom:

- Roedd y cyfarpar a ddefnyddiwyd ar gyfer glanhau a sterileiddio offer mewn cyflwr da
- Roedd offerynnau'n cael eu storio'n briodol ac roedd dyddiad arnynt
- Roedd cyfarpar diogelu personol ar gael i amddiffyn staff rhag anaf a/neu haint
- Roedd gwiriadau cynnal a chadw dyddiol yn cael eu cynnal
- Roedd offer yn cael eu storio mewn cynwysyddion gyda chaeadau diogel.

Fodd bynnag, gwelsom fod offer deintyddol budr yn cael eu gosod ar hambwrdd gyda leinin untro. Dywedwyd wrthym y byddai'r leinin yn cael ei waredu ar ôl ei ddefnyddio a'r hambwrdd metel yn cael ei sychu'n lân â llaw. Gwnaethom hysbysu'r staff y dylid glanhau a sterileiddio'r hambwrdd offer deintyddol yn yr awtoclaf⁴.

Gwelsom hefyd nad oedd y biniau eitemau miniog yn cael eu storio ger y man defnyddio a'u bod wedi'u lleoli y tu allan i'r ystafelloedd triniaeth. Dylid symud biniau eitemau miniog yn yr ystafelloedd triniaeth.

Gwelsom nad yw offer miniog mwy diogel⁵ yn cael eu defnyddio gan bob clinigwr ac nad oes asesiad risg ar waith ar gyfer y rhai sy'n defnyddio'r system chwistrell

⁴ Defnyddir awtoclafau yn gyffredin mewn lleoliadau gofal iechyd i sterileiddio dyfeisiau meddygol. Mae'r eitemau sydd i'w sterileiddio yn cael eu gosod y tu mewn i lestr pwysedd, y cyfeirir ato'n gyffredin fel y siambr. Mae tri ffactor yn hanfodol i sicrhau sterileiddio stêm llwyddiannus mewn awtoclaf: amser, tymheredd ac ansawdd stêm.

⁵ Mae'r term 'miniog mwy diogel' yn golygu offer miniog meddygol sy'n ymgorffori nodweddion neu fecanweithiau i atal neu leihau'r risg o anafiadau damweiniol. Er enghraifft, mae ystod o chwistrellau a nodwyddau bellach ar gael gyda tharian neu orchudd sy'n llithro neu'n canoli i orchuddio'r nodwydd ar ôl ei defnyddio.

anesthetig lleol. Dylai asesiad risg cadarn fod ar waith gan fod mwy o risg o anaf gan offer miniog.

Roedd gan y practis raglen gynnal a chadw ddyddiol ar gyfer archwilio'r offer sterileiddio. Roedd llyfr log wedi'i sefydlu ar gyfer cofnodi gwiriadau dechrau a diwedd dydd yr awtoclaf.

Defnyddir bath uwchsonig ar gyfer glanhau cyn sterileiddio gyda glanhau â llaw yn cael ei ddefnyddio fel proses wrth gefn. Fodd bynnag, dim ond un bath uwchsonig bach sydd gan y feddygfa, ac nid yw hynny'n ddigonol ar gyfer practis pum ystafell triniaeth.

Gwelsom dystiolaeth fod archwiliad rheoli heintiau wedi'i gwblhau gan ddefnyddio offerynnau archwilio cydnabyddedig, gan gynnwys offeryn archwilio Addysg a Gwella Iechyd Cymru, sy'n cyd-fynd â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Gwnaethom gydnabod hyn fel arfer da oherwydd cwmpas cynhwysfawr yr archwiliad. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd yr archwiliad wedi'i gwblhau'n gywir ac nad oedd cynllun gweithredu ar waith. Nid oedd yr archwiliad wedi nodi nad oedd offer miniog mwy diogel yn cael eu defnyddio gan bob clinigwr ac nad oedd yr hambyrddau offer deintyddol yn cael eu hawtoclaffio. Dylai'r practis drefnu i'r archwiliad gael ei ailadrodd yn fwy trylwyr gyda chynllun gwella addas yn cael ei lunio.

Roedd polisi rheoli heintiau wedi'i sefydlu, a oedd yn cynnwys cyfeiriad at hylendid dwylo, trin a gwaredu gwastraff clinigol yn ddiogel, trefniadau cadw tŷ a glanhau a hyfforddiant.

Roedd gan y practis system ar waith i reoli gwastraff yn briodol ac yn ddiogel. Roedd dogfennau contract wedi'u sefydlu ar gyfer gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig). Gwelsom fod yr holl wastraff wedi'i wahanu yn y bagiau / cynwysyddion dynodedig yn unol â'r dull gwaredu cywir. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell bod y practis yn trefnu i'r bin gwastraff peryglus (clinigol), sydd wedi'i leoli yn y cwrt, gael ei osod yn sownd wrth y wal.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:

- Mae hambyrddau offer deintyddol yn awtoclafadwy
- Mae'r biniau eitemau miniog yn cael eu hadleoli o fewn yr ystafelloedd triniaeth
- Mae asesiad risg cadarn ar waith ar gyfer clinigwyr nad ydynt yn defnyddio offer miniog mwy diogel
- Mae nifer digonol o faddonau uwchsonig ar gael ar gyfer practis pum meddygfa
- Ailadrodd archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 a datblygu cynllun gwella
- Y cynhwysydd gwastraff clinigol peryglus i'w osod yn sownd wrth y wal.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith i ddangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Roedd mwyafrif y staff wedi derbyn hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR) cyfredol. Gwelsom fod tri aelod o staff ar fin adnewyddu eu hyfforddiant a dywedwyd wrthym fod hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer yr aelodau hynny o staff yn un o bractisau eraill Bupa. Roedd gan y practis hefyd un swyddog cymorth cyntaf hyfforddedig.

Cadarnhaodd rheolwr y practis fod y cyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel ac mewn lleoliad lle mae modd cael mynediad atynt ar unwaith yn achos argyfwng meddygol (claf yn llewygu) yn y practis. Roedd system effeithiol ar waith i wirio'r offer a'r cyffuriau brys i sicrhau nad oeddent yn hen a'u bod yn barod i'w defnyddio, yn unol â safonau a osodwyd gan y Cyngor Dadebru (DU). Fodd bynnag, fe wnaethom nodi nad oedd dyddiadau dod i ben y nodwyddau a chwistrellau wedi'u cofnodi yn y llyfr log.

Roedd polisi ar waith yn ymwneud ag archebu, cofnodi, rhoi a chyflenwi meddyginiaethau i gleifion. Disgrifiodd y staff y weithdrefn y byddent yn ei dilyn pe bai argyfwng meddygol neu pe bai'n rhaid iddynt adrodd am ddigwyddiad anffafriol yn ymwneud â chyffuriau.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod dyddiadau dod i ben y nodwyddau a'r chwistrellau sydd yn y cyfarpar cyffuriau brys yn cael eu cofnodi yn y llyfr log.

Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd polisïau diogelu ar waith i amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Gwelsom fod yr holl staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed. Roedd y practis wedi nodi aelod o staff fel yr arweinydd diogelu enwebedig a oedd yn gyfrifol am sicrhau y cedwir at y polisi diogelu ac am roi cyngor ac arweiniad i staff ar faterion diogelu.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd yr holl offer radiolegol (pelydr-X) yn cael eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr gweithio da. Roedd trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer radiograffeg yn ddiogel ac roedd archwiliadau sicrhau ansawdd delweddau pelydr-X rheolaidd yn cael eu cwblhau.

Gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio cyfoes ar gyfer yr holl staff clinigol.

Fe wnaethom nodi nad oedd unrhyw gyflinydd hirsgwar⁶ ar y peiriannau pelydr-X i gyfyngu ar y dos o ymbelydredd mae claf yn ei dderbyn yn ystod pelydr-X deintyddol arferol. Rydym yn argymhell defnyddio cyflinydd hirsgwar bob amser.

Gwelsom fod rhywfaint o gynyddiad yn bresennol ar bob cadair deintyddol. Mae angen atgyweirio'r rhain er mwyn sicrhau glanhau effeithiol yn unol â gweithdrefnau rheoli heintiau. Gwelsom hefyd fod rhai o oleuadau cadeiriau deintyddol wedi'u difrodi a bod y gorchuddion amddiffynnol clir ar goll.

⁶ Gwnaeth y [Nodiadau Cyfarwyddyd Meddygol a Deintyddol](#) argymhell y dylid darparu cyflinydd hirsgwar ar offer newydd ac y dylid ei ôl-osod ar offer presennol cyn gynted â phosibl.

Gwelsom fod uned bwmpio wedi'i gosod ar sinciau ymolchi dwylo'r ystafell driniaeth i ollwng dŵr gweddilliol. Fodd bynnag, nid oedd y pypmiau'n gweithio'n iawn ac o ganlyniad nid oedd dŵr yn draenio'n dda o'r sinciau.

Gwelsom hefyd nad oedd tri o'r pum digennwr deintyddol⁷ yn yr ystafelloedd triniaeth yn gweithio.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau'r canlynol:

- Defnyddir cyflinydd hirsgwar i leihau dos y claf pan fydd pelydrau-X yn cael eu cymryd
- Bod y cadeiriau deintyddol yn cael eu trwsio
- Bod gorchuddion amddiffynnol ar goll neu wedi'u difrodi ar oleuadau'r gadair ddeintyddol yn cael eu trwsio neu eu newid
- Bod pypmiau dŵr yn y sinciau ymolchi dwylo yn cael eu trwsio neu eu newid
- Bod digenwyr deintyddol sydd wedi torri yn cael eu trwsio neu eu newid.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd yn amlwg bod y practis yn ceisio gwneud gwelliannau parhaus i'r gwasanaeth a ddarperir i'r cleifion. Roeddem yn gallu gweld bod archwiliadau perthnasol wedi'u cwblhau a bod gweithredu arnynt megis; traws-heintio, cadw cofnodion, ansawdd pelydr-X, rhagnodi gwrthfotigau, hylendid dwylo ac adborth cleifion. Fodd bynnag, gwnaethom argymhell bod y practis yn cynnwys yr archwiliadau Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a ganlyn i'r rhaglen arfaethedig:

⁷ Teclyn sy'n cael ei ddefnyddio i dynnu plac caled sy'n cronni rhwng ein dannedd ac o dan ein deintygig yw digennwr deintyddol (neu sgrafell plac fel arall).

- Offeryn gwella ansawdd ar gyfer ymbelydredd ïoneiddio
- Archwiliad clinigol ac adolygiad gan gymheiriaid (CAPRO) o ragnodi gwrthfotigau
- Archwiliadau rhoi'r gorau i ysmegu.

Rydym hefyd yn cynghori bod y practis yn defnyddio offeryn archwilio AaGIC i'w cefnogi gyda'r rhaglen archwilio.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod offeryn gwella ansawdd AaGIC ar gyfer ymbelydredd ïoneiddio, CAPRO o ragnodi gwrthfotigau ac archwiliadau rhoi'r gorau i ysmegu yn cael eu cwblhau fel rhan o'r rhaglen flynyddol o archwiliadau.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Dywedodd staff wrthym nad oedd system adolygu cymheiriaid ffurfiol ar waith rhwng staff clinigol. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod staff clinigol yn mynychu cyfarfodydd practis. Rydym yn argymhell bod y tîm clinigol yn cyfarfod yn ffurfiol i drafod materion clinigol. Bydd gweithredu archwiliadau adolygu cymheiriaid ffurfiol yn gwella ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir i gleifion.

Cawsom yr adroddiad unigolyn cyfrifol diweddaraf, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Dangosodd yr adroddiad dystiolaeth o'r ffordd mae ansawdd y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu'n cael ei reoli a'i asesu i sicrhau ei fod yn bodloni gofynion y rheoliadau a'r safonau perthnasol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r rheolwr cofrestredig sefydlu a chynnal cofnodion o broses adolygu gan gymheiriaid clinigol.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd polisi diogelu data wedi'i sefydlu ac roedd ffeiliau cleifion yn cael eu storio'n briodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd copïau wrth gefn o ffeiliau electronig yn cael eu cadw'n rheolaidd ac roedd mynediad at sgriniau cyfrifiaduron yn ddiogel ac yn ddisylw.

Cadw cofnodion

Edrychwyd ar sampl o gofnodion cleifion. Gwelsom dystiolaeth o gadw cofnodion clinigol da, a oedd yn dangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i ddarparu mewn ffordd sy'n sicrhau diogelwch a lles cleifion.

Roedd y cofnodion a welwyd yn unigol ac yn cynnwys dynodwyr cleifion priodol, hanes deintyddol blaenorol a'r rheswm dros fynychu. Roedd y cofnodion yn glir iawn, yn ddarllenadwy ac o ansawdd uchel.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom dystiolaeth o arferion rheoli a'r arweinyddiaeth yn y practis.

Roedd yn ymddangos bod y staff yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ac roedd ganddynt fynediad at hyfforddiant, cyfarfodydd staff rheolaidd ac arfarniadau blynyddol i helpu i gyflawni eu rolau.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Rheolwr practis Gofal Deintyddol Bupa yw'r rheolwr cofrestredig⁸.

Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda iawn a llinellau atebolrwydd clir.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hyderus i godi unrhyw faterion neu bryderon yn uniongyrchol gyda rheolwr y practis a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda iawn yn eu rolau. Roedd y staff wedi gweithio gyda'i gilydd ers peth amser a gallem weld bod cydberthynas dda rhyngddynt.

Gwelsom fod y staff yn glir iawn ac yn wybodus am eu rolau a'u cyfrifoldebau. Roedd y staff yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel i gleifion, wedi'i ategu gan amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau.

Cawsom gopi o'r datganiad o ddiben a oedd yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Gwnaethom nodi nad oedd y datganiad o

⁸ Ystyr "rheolwr cofrestredig" yw unigolyn sydd wedi'i gofrestru o dan Ran 2 Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 fel rheolwr practis deintyddol preifat.

ddiben yn cael ei arddangos yn yr ardal aros. Gwnaethom drafod hyn â rheolwr y practis a drefnodd ar unwaith i'r datganiad o ddiben gael ei arddangos.

Roedd yr holl staff clinigol wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ac roedd ganddynt yswiriant indemniad priodol. Roedd gan y practis yswiriant atebolrwydd cyhoeddus.

Staff ac adnoddau

Y gweithlu

Cadarnhaodd y staff eu bod yn teimlo y gallent godi unrhyw bryderon yn ymwneud â gwaith yn uniongyrchol â rheolwr y practis, a'u bod yn hyderus iawn y byddid yn gweithredu ar bryderon.

Disgrifiodd rheolwr y practis y gwiriadau cyn cyflogi a fyddai'n cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau newydd o staff cyn iddynt ymuno â'r practis. Roedd hyn yn cynnwys gwirio geirdaon a/neu gynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar staff sy'n briodol i'r gwaith maent yn ei wneud. Gwnaethom gadarnhau bod gan yr holl staff perthnasol wiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) dilys ar waith.

Gwelsom fod gan y practis raglen sefydlu ar waith, a oedd yn cynnwys hyfforddiant gorfodol a throsolwg o bolisiau a gweithdrefnau perthnasol.

Gwelsom fod matrices hyfforddi ar waith sy'n cael ei fonitro gan reolwr y practis. Roedd y cofnodion yn dangos bod yr holl staff clinigol wedi ymgymryd â hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau a'u bod yn bodloni gofynion datblygiad proffesiynol parhaus.

Dywedodd y staff wrthym fod cyfarfodydd tîm rheolaidd yn cael eu cynnal a gwelsom fod cofnodion manwl o'r cyfarfodydd hyn yn cael eu cadw ar ffeil. Gwelsom hefyd fod gwerthusiadau staff yn cael eu cynnal yn flynyddol.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau a'i rwymedigaethau fel y nodir yn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle y gwnaethom roi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ein hysbysu o'r camau gweithredu brys maent yn eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Pan ydym yn nodi unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau o bractisau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Diben hyn yw fel bod trefniadau'n gallu cael eu gwneud i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn ôl yr arfer, ac fel bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied â phosibl.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#) ac, mewn achosion lle y darperir deintyddiaeth breifat, sut maent yn bodloni [Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat \(Cymru\) 2017](#). Pan fo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â [Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017](#) ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill fel [Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol](#).

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir rhagor o wybodaeth am sut mae AGIC yn arolygu [practisau deintyddol](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Gofal Deintyddol Bupa, y Fflint

Dyddiad yr arolygiad: 15 Chwefror 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diffyg cydymffurfio mewn perthynas â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys maent yn eu cymryd.

Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Y camau sydd i'w cymryd	Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Gofal Deintyddol Bupa, Y Fflint

Dyddiad yr arolygiad: 15 Chwefror 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Amherthnasol				
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau bod daliwr papur toiled a theclyn dosbarthu tyweli papur yn cael eu gosod yn nhoiled y staff.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.	Gosod daliwr rholyn toiled newydd. Teclyn dosbarthwr tyweli papur eisoes wedi'i osod, ond gadawyd tyweli papur ar yr ochr. Er mwyn sicrhau bod y teclyn dosbarthu yn cael ei ddefnyddio'n gywir.	Rheolwr y Practis	Cwblhawyd. Daliwr rholyn toiled newydd wedi'i osod, teclyn dosbarthu tyweli papur yn cael ei ddefnyddio'n gywir.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y difrod i wal y gegin a'r teils coll yn cael eu hatgyweirio er mwyn hwyluso glanhau effeithiol.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.	Cysylltu â rheolwyr eiddo i drefnu dyddiad ar gyfer atgyweiriadau.	Rheolwr y Practis	Tri mis.
Dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau bod hambyrddau offer deintyddol yn awtoclafadwy.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.	Archebu hambyrddau offer awtoclafadwy.	Nyrs Arwain	Dau fis.
Dylid symud y biniau eitemau miniog yn yr ystafelloedd triniaeth.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi, Rheoliadau Deintyddiaeth	Gwneud trefniadau i'r Peiriannydd fod yn bresennol i adleoli biniau eitemau miniog.	Rheolwr y Practis	Dau fis.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Breifafat (Cymru) 2017.			
Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod asesiad risg cadarn ar waith ar gyfer clinigwyr nad ydynt yn defnyddio offer miniog mwy diogel.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017	Asesiad Risg cadarn i'w gwblhau ar gyfer Clinigwyr nad ydynt yn defnyddio offer miniog mwy diogel.	Nyrs Arwain	Wedi'i gwblhau
Dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau bod digon o faddonau uwchsonig ar gael ar gyfer practis pum meddygfa.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.	Prynu mwy o Faddonau Uwchsonig.	Nyrs Arwain	Dau fis.
Dylai'r darparwr cofrestredig drefnu i archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 gael ei ailadrodd a datblygu cynllun gwella.	Memorandwm Technegol	Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 Archwiliad i'w ail-gwblhau a chynllun gwella ar waith.	Nyrs Arwain	Wedi'i gwblhau

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Iechyd Cymru 01-05, 1.8.			
Dylid gosod bin gwastraff clinigol peryglus yn sownd wrth y wal.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi, Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.	Trefniadau i'w gwneud i'r Peiriannydd osod bin Gwastraff Clinigol Peryglus yn sownd i'r wal.	Rheolwr y Practis	Tri mis.
Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod dyddiadau dod i ben y nodwyddau a'r chwistrellau sydd yn y cyfarpar cyffuriau brys yn cael eu cofnodi yn y llyfr log.	2.6 Rheoli Meddyginiaeth au; Y Cyngor Dadebru (DU).	Creu llyfr log newydd i gynnwys cofnodi dyddiadau dod i ben y nodwyddau a chwistrellau sydd yn y cyfarpar cyffuriau brys.	Nyrs Arwain	Wedi'i gwblhau
Dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau bod cyflinydd hirsgwar yn cael ei ddefnyddio i leihau'r dos i gleifion pan gymerir pelydrau-X.	2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol;	Sicrhau bod cyflinwyr yn cael eu defnyddio ym mhob meddygfa.	Nyrs Arwain	Wedi'i gwblhau

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Nodiadau Cyfarwyddyd Meddygol a Deintyddol.			
Dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau bod unrhyw gyrydiad sy'n bresennol ar y cadeiriau deintyddol yn cael ei atgyweirio.	2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.	Trefnu bod atgyweiriadau yn cael eu gwneud i gadeiriau deintyddol.	Rheolwr y Practis	Tri mis.
Dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau bod unrhyw orchuddion amddiffynnol sydd ar goll neu wedi'u difrodi ar oleuadau'r gadair ddeintyddol yn cael eu trwsio neu eu newid.	2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.	Trefnu i'r Peiriannydd ailosod gorchuddion sydd wedi'u difrodi ar oleuadau deintyddol.	Rheolwr y Practis	Dau fis.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y pypmpiau dŵr yn y sanciau ymolchi dwylo yn cael eu trwsio neu eu newid.	2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.	Trefnu i'r Peiriannydd fod yn bresennol i atgyweirio/amnewid pypmpiau dŵr mewn meddygfeydd.	Rheolwr y Practis	Dau fis.
Dylai'r darparwr cofrestredig sicrhau bod unrhyw ddigenwyr deintyddol sydd wedi torri yn cael eu trwsio neu eu newid.	2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.	Trefnu i ddigenwyr sydd wedi torri gael eu hanfon i ffwrdd i'w trwsio.	Nyrs Arwain	Dau fis.
Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod offeryn gwella ansawdd AaGIC ar gyfer ymbelydredd ïoneiddio, CAPRO o ragnodi gwrthfotigau ac archwiliadau rhoi'r gorau i ysmygu yn cael eu	3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol;	Cydgysylltu ag arweinydd llywodraethu clinigol a sicrwydd i gwblhau CAPRO, rhoi'r gorau i ysmygu.	Rheolwr y Practis	Dau fis.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
cwblhau fel rhan o'r rhaglen flynyddol o archwiliadau.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.			
Dylai'r rheolwr cofrestredig sefydlu a chynnal cofnodion o broses adolygu gan gymheiriaid clinigol.	3.3 Gwella Ansawdd, Ymchwil ac Arloesi; Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.	Trefnu i sefydlu a chynnal cofnodion o broses adolygu gan gymheiriaid clinigol.	Rheolwr y Practis	Dau fis.
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Amherthnasol				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras):Andrea Parker

Swydd: Rheolwr y Practis

Dyddiad:25/03/22